# Llysiau

Dwi ddim yn hoffi panas
Cennin - ych-a-fi
Does dim yn waeth mewn smŵddi
Na llysiau - dwi'n dweud 'tho ti!

Maen nhw'n neis mewn cawl o lysiau
Maen nhw'n flasus mewn cinio rhost
Ond llysiau mewn diod iachus?
Ych! Maen nhw'n gwneud fi'n dost!

Dwi ddim yn hoffi rwdin
Bresych - ych-a-fi
Does dim yn waeth mewn smŵddi
Na llysiau - dwi'n dweud 'tho ti!

Maen nhw'n neis mewn spag bol llysiau
Maen nhw'n flasus mewn cyri dhal
Ond llysiau mewn diod iachus?
Ych! Maen nhw'n gwneud fi'n sâl!

Ond sbrowts - heb os yw'r gwaetha'
Dyna dwi'n clywed o hyd
Ond sbrowts - heb os yw'r gorau
Llysieuyn gorau'r byd!

**Geirfa / Vocabulary:**

*llysiau / vegetables*

| | |
|---|---|
| llysieuyn/Llysiau | (vegetable/s) |
| panas | (parsnip) |
| cennin | (leeks) |
| rwdin | (swede) |
| bresych | (cabbage) |
| sbrowts | (sprouts) |

**Gerifa gyffredinol / *General vocabulary:***

| | |
|---|---|
| ych-a-fi! (yuck!) | smŵddi (smoothie) |
| cawl (soup) | blasus (tasty) |
| cinio rhost | (roast dinner) |
| diod (drink) | iachus (healthy) |
| sâl (ill) | tost (dost) (ill) |
| gwaeth (worse) | gorau (best) |
| byd | (world) |
| clywed | (hear) |

**Patrymau Iaith / Language Patterns:**

Dw i ddim yn hoffi … (I don't like …)
Maen nhw'n … (They are …)
Does dim yn waeth … (There's nothing worse …)
O hyd (always)

© 2025 S4C